# Cwrs Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil

**Medrus 3 a 4, Adeilad Penbryn, Prifysgol Aberystwyth, SY23 3BY**

**Dydd Mercher a Dydd Iau, 16 ac 17 Hydref 2024**

Mae rhagor o wybodaeth am Raglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil y Coleg Cymraeg ar y dudalen hon, neu cysylltwch â Dr Manon Elin James ar m.james@colegcymraeg.ac.uk.

## Amserlen

Cynhelir pob sesiwn yn ystafell **Medrus 3** os na nodir yn wahanol.

### Diwrnod 1 – Dydd Mercher, 16 Hydref

| | |
|---|---|
| 09:15 – 09:30 | Cyrraedd, croeso a phaned |
| 09:30 – 10:00 | Dod i adnabod ein gilydd |
| 10:00 – 11:30 | 'Cyflwyniad i Ymchwil' – Dr Elin Royles |
| 11:30 – 11:45 | Egwyl a phaned |
| 11:45 – 13:15 | 'Dod o hyd i wybodaeth' – Dr Lloyd Roderick a Non Jones |
| 13:15 – 14:15 | Cinio *(darperir cinio am ddim)* |
| 14:15 – 15:15 | 'Hawlfraint ac eiddo deallusol' – Dr Dafydd Tudur |
| 15:15 – 15:30 | Egwyl a phaned |
| 15:30 – 17:00 | Taith a chyflwyniad i'r Llyfrgell Genedlaethol |
| 18:30 | Swper – Y Llew Du *(darperir swper am ddim)* |

### Diwrnod 2 – Dydd Iau, 17 Hydref

| | |
|---|---|
| 09:15 – 09:30 | Cyrraedd a phaned |
| 09:30 – 11:00 | 'Rheoli'r goruchwyliwr' – Dr Hanna Binks, Demi John a Gwenllian Jenkins |
| 11:00 – 11:15 | Egwyl a phaned |
| 11:15 – 12:45 | 'Llunio adolygiad o'r llenyddiaeth' – yr Athro Andrew Davies |
| 12:45 – 13:30 | Cinio *(darperir cinio am ddim)* |
| 13:30 – 15:00 | • 'Dulliau ymchwil yn y celfyddydau a'r dyniaethau' – Dr Rhian Hodges (Medrus 3)<br>• 'Dulliau ymchwil yn y gwyddorau' – Yr Athro Huw Morgan (Medrus 4) |
| 15:00 – 15:15 | Egwyl a phaned |
| 15:15 – 16:45 | 'Cynllunio a chyflwyno posteri ymchwil' – Dr Hywel Griffiths |
| 16:45 | Cloi a gadael |

# Bywgraffiadau a Disgrifiadau

## Cyflwyniad i Ymchwil

**Cyflwynydd**: Dr Elin Royles (ear@aber.ac.uk, @ElinRoyles)

**Bywgraffiad**

Mae Elin Royles yn Ddarllenydd yn Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth ac yn gysylltiedig gyda Chanolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru'r brifysgol. Ei phrif faes ymchwil yw gwleidyddiaeth is-wladwriaethol gan edrych ar bolisi cyhoeddus yng Nghymru wedi datganoli (e.e. ymwneud rhyngwladol Llywodraeth Cymru, cymdeithas sifil, chynllunio a pholisi iaith) a pherthnasau rhynglywodraethol. Yn ddiweddar, mae wedi gwneud mwy o waith ym maes mudiadau cenedlaetholgar, diwygio cyfansoddiadol a galwadau am annibyniaeth. Ar hyn o bryd, mae'n cwblhau gwaith ar brosiect ymchwil cymharol wedi ei ariannu gan yr ESRC ac ar werthusiad o Arfor II a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Cynnwys:**

Bydd y gweithdy hwn yn rhoi cyflwyniad i wneud gwaith ymchwil doethuriaethol. Bydd yn gyfle i drafod rhai o'ch disgwyliadau am eich gwaith ymchwil a chwestiynau sy'n codi am 3-4 blynedd nesaf eich bywyd.

**Amcanion y gweithdy:**

- Trafod prif nodweddion traethawd ymchwil a'i amcanion
- Amlinellu rhai o'r trefniadau ymarferol a'r disgwyliadau yn y broses o gynhyrchu traethawd ymchwil
- Trafod rhai o'r sgiliau sydd angen eu datblygu wrth ymgymryd â gwaith ymchwil
- Ystyried rhai o'r anawsterau all godi wrth weithio ar draethawd ymchwil
- Trafod rhai o'r dulliau o ymateb i unrhyw heriau sy'n codi
- Meddwl yn ehangach am eich datblygiad fel ymchwilydd gan gynnwys cyfrannu at addysgu, ymwneud mewn rhwydweithiau ymchwil a chyfleoedd i ymgysylltu ac o ran ymwneud â thraweffaith (*engagement and impact*)

**Ar ddiwedd y gweithdy dylai'r mynychwyr fod yn gallu:**

- Deall diben ymchwil a dangos ymwybyddiaeth o arfer da o ran trefniadau ymarferol y broses o gynhyrchu traethawd ymchwil
- Trin a thrafod rhai o'r anawsterau yn y broses o weithio ar draethawd ymchwil a rhai o'r ffyrdd o ddygymod gyda'r rhain
- Deall gwerth ymchwil a'r cyfleoedd ehangach yn ystod cyfnod ymchwil doethurol.

## Dod o hyd i wybodaeth – dechrau arni

**Cyflwynwyr**: Non Jones a Dr Lloyd Roderick

### Bywgraffiadau

Llyfrgellydd Pwnc yw Non Jones ym Mhrifysgol Aberystwyth gydag arbenigedd ym maes Gwyddorau Bywyd, Gwyddor Milfeddygaeth a Dysgu Gydol Oes. Mae wedi gweithio yn Llyfrgelloedd Prifysgol Aberystwyth ers 2001 a chyn hynny yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Gyhoeddus Aberystwyth.

Llyfrgellydd Pwnc yw Lloyd Roderick, gydag arbenigedd mewn gwybodaeth a chasgliadau'r gyfraith, hanes ac Astudiaethau Cymraeg/Cymreig. Mae wedi gweithio yn

Llyfrgell Hugh Owen, Prifysgol Aberystwyth ers 2015 a chyn hynny wedi gweithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llyfrgell y Courauld Institute of Art, Prifysgol Llundain a llyfrgelloedd cyhoeddus Casnewydd.

**Cynnwys**

Mae dechrau ar waith ymchwil yn medru bod yn anodd, yn arbennig pan mae angen dangos tystiolaeth o ddefnyddio gwahanol ffynonellau gwybodaeth. Gall hefyd fod yn broses unig. Bwriad y sesiwn yw cyflwyno a thrafod gydag eraill yr ystod eang o ffynonellau sydd ar gael i ymchwilwyr ar draws y gwahanol feysydd academaidd. Bydd trafodaeth ar sut i fynd ati i werthuso'r wybodaeth, rannu arferion da a golwg ar strategaethau chwilio.

## Hawlfraint ac Eiddo Deallusol

**Cyflwynydd**: Dr Dafydd Tudur

**Bywgraffiad**

Mae Dafydd Tudur yn Bennaeth Isadran Mynediad Digidol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bu’n fyfyriwr ymchwil ym Mhrifysgol Bangor cyn iddo gael ei benodi yn Swyddog Prosiect a Golygydd, ac wedi hynny yn Rheolwr Culturenet Cymru, sef cwmni anfasnachol a oedd yn gyfrifol am brosiectau digidol fel *Casglu’r Tlysau, Glaniad* a *Chasgliad y Werin*. Bu’n Rheolwr Hawliau a Gwybodaeth am bron i bum mlynedd, yn ymdrin ag agweddau cyfreithiol o reoli gwybodaeth, yn cynnwys eiddo deallusol (yn arbennig hawlfraint), gwarchodaeth data a rhyddid gwybodaeth. Yn ei swydd bresennol, mae wedi gweithio ar brosiectau digidol *Papurau Newydd Cymru*, *Cylchgronau Cymru* a *Lleoedd Cymru* a chydweithio gyda Wikimedia UK a Europeana i roi mynediad ehangach i gasgliadau’r Llyfrgell Genedlaethol.

**Cynnwys**

Bydd y gweithdy hwn o ddiddordeb i unrhyw un sydd yn ymdrin â gweithiau sydd wedi’u creu gan eraill, yn paratoi gwaith i’w gyhoeddi mewn unrhyw gyfrwng, neu sydd

am wneud defnydd o unrhyw ddarn o waith rhywun arall wrth ddysgu, mentora neu baratoi adnoddau ar gyfer myfyrwyr.

**Amcanion y gweithdy hwn yw:**

- Datblygu ymwybyddiaeth o hawlfraint
- Ystyried rôl awdur, y cyhoeddwr ac ambell asiantaeth yn y gwaith o warchod hawlfraint
- Cynnig ffyrdd o weithredu'n gyfreithlon wrth greu gwaith i'w gyhoeddi
- Ystyried goblygiadau hawlfraint ym maes dysgu ac arholiadau

**Cynnwys:**

1. Ffeithiau cyffredinol am hawlfraint
2. Cytundebau a chaniatâd
3. Arferion da, cyfreithlon
4. Gweithiau archifol
5. Dysgu a darparu ar gyfer myfyrwyr

**Ar ddiwedd y gweithdy hwn dylai hyfforddeion fod yn gallu:**

- Deall y cysyniad o hawlfraint a bod yn ymwybodol o berchnogaeth a chyfnod cyfreithiol hawlfraint
- Deall y camau posibl o drosglwyddo, gwerthu, aseinio a thrwyddedu hawlfraint
- Gweithredu o fewn y gyfraith gan fanteisio ar 'eithriadau'
- Deall eu hawliau eu hunain mewn perthynas â'u gwaith
- Ymchwilio a holi er mwyn sicrhau caniatâd i ddefnyddio gwaith pobl eraill
- Cynyddu ymwybyddiaeth o faterion hawlfraint yn y myfyrwyr y byddant yn eu mentora neu eu dysgu

## Rheoli'r goruchwyliwr

**Cyflwynwyr:** Dr Hanna Binks, Gwenllian Jenkins a Demi John

### Bywgraffiadau

Mae Dr Hanna Binks yn ddarlithydd yn Adran Seicoleg Prifysgol Aberystwyth, ac mae ei hymchwil yn y maes caffael iaith a dwyieithrwydd.

Mae Gwenllian yn astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth ac ar fun cychwyn ei thrydedd flwyddyn o'r PhD o dan nawdd y coleg. Cafodd ei magu ar fferm ddefaid yn Sir Gar, a phwnc y traethawd ymchwil yw Strategaethau Amaethyddol yng Nghymru ar gyfer y dyfodol. Mi fydd Gwenllian yn trafod ei phrofiadau dros gyfnod y PhD hyd yma ac yn rhannu cyngor ar y pwnc o hybu cydweithio da gyda'ch goruchwylwyr.

Mae Demi John yn fyfyrwraig PhD yn ei blwyddyn olaf yn cynnal gwaith ymchwil Ethnograffeg Droseddol ar bersbectif swyddogion ymateb o heddlu pobl sy'n agored i niwed. Mae hi'n gwirfoddoli rhan amser fel cwnstabl gwirfoddol gyda Heddlu Dyfed-Powys ac wedi gwneud ei gradd israddedig yn Aberystwyth, wedi astudio Troseddeg a'r Gyfraith. Mae hi'n gweithio rhan amser fel athrawes yn yr Adran Troseddeg ar Gyfraith.

### Cynnwys

Mae'r goruchwyliwr yn chwarae rôl bwysig yn eich profiad doethurol, ac felly mae angen meithrin perthynas dda o'r dechrau. Sut allwch chi gael y gorau o'r berthynas oruchwylio? Ymunwch â ni i drafod arfer dda a rhannu profiadau.

Byddwn yn trafod:

- Cydnabod rôl a chyfraniad y goruchwyliwr a'ch cyfraniad chi
- Cyfathrebu gyda'r goruchwyliwr/tîm goruchwylio
- Y cyfarfodydd goruchwyliol
- Delio gyda phroblemau

**Ar ddiwedd y gweithdy hwn bydd hyfforddeion yn gallu:**

- Deall y berthynas oruchwylio yn well
- Teimlo'n hyderus wrth gysylltu â'r tîm goruchwylio

- Deall mwy am brofiadau myfyrwyr eraill a'u goruchwylwyr
- Cydnabod disgwyliadau'r tîm goruchwylio
- Ystyried sut mae delio gyda phroblemau wrth iddynt godi, a phwy o fewn y sefydliad all helpu.

## Llunio Adolygiad o'r Llenyddiaeth

**Cyflwynydd:** yr Athro Andrew Davies

**Bywgraffiad**

Mae Andrew James Davies yn Athro mewn Addysg, ac yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil i Ymarfer, ym Mhrifysgol Abertawe. Mae ganddo ddiddordebau ymchwil ym meysydd polisi addysg yng Nghymru, arweinyddiaeth addysgol, ac addysg Gymraeg ôl-orfodol.

**Cynnwys**

Bydd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar sut i gynnal adolygiad o'r llenyddiaeth fel rhan o'ch prosiect uwchraddedig neu ymchwil. Bydd y sesiwn yn ystyried pwrpas a rôl adolygiadau o fewn prosiectau ymchwil, trafod meini prawf cynnwys deunydd, amlinellu dulliau chwilota, ac yn edrych ar sut i ddidoli, trefnu a chydblethu casgliadau sy'n deillio o'ch adolygiad o'r llenyddiaeth.

## Methodolegau Ymchwil yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau

**Cyflwynydd:** Dr Rhian Hodges

**Bywgraffiad**

Mae Dr Rhian Hodges yn Uwch Ddarlithydd Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol yn Ysgol Hanes, Y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas ym Mhrifysgol Bangor ers dros ddegawd bellach. Mae'n addysgu modiwlau cyfrwng Cymraeg ym maes addysg, cymdeithaseg, cynllunio ieithyddol, cymdeithaseg cerddoriaeth a dulliau ymchwil ac wrth ei bodd yn dysgu ystod eang o bynciau gwahanol drwy'r Gymraeg.

Ei maes ymchwil arbenigol yw cynllunio ieithyddol, ac yn arbennig siaradwyr newydd y Gymraeg, defnydd cymunedol o'r Gymraeg, ac addysg cyfrwng Cymraeg fel dull adfywio'r Gymraeg yng Nghymru.

### Cynnwys

Bydd y gweithdy hwn o fudd i fyfyrwyr ôl-radd sydd wrthi'n cynllunio eu traethodau hir a thraethodau ymchwil gan mae'n cynnig cyfle i ystyried camau hollbwysig y broses ymchwil a sut mae'n rhaid yn berthnasol i'w hymchwil eu hunain.

### Amcanion y gweithdy

- Cyflwyno prif hanfodion Dulliau Ymchwil i fyfyrwyr ôl-radd gan ddilyn yr amcanion canlynol:
- Olrhain hanes a gwreiddiau damcaniaethau methodoleg ymchwil
- Cyflwyno cysyniadau craidd dulliau ymchwil
- Cynnig technegau amrywiol o ymchwilio'n ansoddol ac yn feintiol
- Camau allweddol wrth greu cynllun ymchwil
- Cyfleoedd rhyngweithiol i gydweithio a rhannu profiadau ymchwil

### Cynnwys

Bydd y sesiwn hyfforddi byw yn adeiladu ar weithdy ar-lein sydd wedi ei rannu yn dair rhan sy'n trin a thrafod cysyniadau allweddol ym maes dulliau ymchwil a'r camau allweddol wrth greu cynllun ymchwil.

- **Rhan 1** – Pwrpas ymchwil gymdeithasol: epistemoleg, ontoleg ac ymchwil empeiraidd
- **Rhan 2** – Persbectifau, strategaethau a chwestiynau ymchwil
- **Rhan 3** – Dadansoddi a dehongli data

**Dylai hyfforddeion wylio'r fideos sy'n rhan o'r gweithdy ar-lein ymlaen llaw.**

# Dulliau Ymchwil yn y Gwyddorau

**Cyflwynydd**: Yr Athro Huw Morgan (hum2@aber.ac.uk)

**Bywgraffiad**

Mae'r Athro Huw Morgan yn seryddwr haul sy'n gweithio ar ddadansoddi arsylwadau o atmosffer yr haul - o arsylwadau coronagraff o'r gofod neu'r ddaear, delweddau eclips, neu fesuriadau o'r gwynt heulol yn bell o'r haul. Mae'n arwain grŵp ymchwil Cysawd yr Haul yn Adran Ffiseg Prifysgol Aberystwyth, yn Gyfarwyddwr Ymchwil yr Adran Ffiseg, ac yn wyddonydd ar gyrch newydd NASA, sef PUNCH, i arsylwi gwynt yr haul.. Mae'n cyhoeddi'n gyson yng nghyfnodolion mwyaf blaenllaw seryddiaeth, ac yn oruchwyliwr i sawl myfyriwr PhD ac ymchwilwyr uwchraddedig. Mae'n cynrychioli ei faes i'r cyfryngau ac yn darlithio'n gyhoeddus yn rheolaidd.

**Cynnwys**

**Amcanion y gweithdy hwn yw:**

- Codi ymwybyddiaeth o'r elfennau sy'n arwain at lwyddiant mewn gyrfa ymchwil
- Darparu gwybodaeth a fydd yn hwyluso'r broses o gyhoeddi eu hymchwil
- Cynyddu hyder y myfyrwyr yn trafod a chyflwyno eu gwaith i'w cyfoedion neu yn gyhoeddus

**Cynnwys:**

**1. Cyffredinol.** Beth sy'n gwneud ymchwilydd llwyddiannus? Beth yn ddelfrydol dylai CV myfyriwr PhD cynnwys tuag at ddiwedd y cyfnod?

**2. Gwyddoniaeth a'r cyfryngau.** Ydych chi'n hyderus yn cyflwyno eich gwaith yn gryno ac yn ddealladwy i gynulleidfa eang? Ydych chi'n medru crynhoi natur eich ymchwil me wn un brawddeg?

**2. Cyhoeddi papurau ymchwil.** Gofynion cyfnodolion mewn gwahanol feysydd. Ysgrife nnu crynodeb da,
ac arddull ysgrifennu cyffredinol. Sut i strwythuro ac arddangos canlyniadau gwyddono l yn effeithiol?

**3. Cyflwyniadau a chynadleddau ymchwil.** Beth sy'n gwneud cyflwyniad gwyddonol d a, a chyngor ar gyflwyno'n hyderus. Rhwydweithio mewn cynadleddau.

**Gofynnir i bob myfyriwr:**

- Baratoi cyflwyniad byr iawn (oddeutu 2 sleid, 2 funud) ar eu gwaith ymchwil, neu fwriad eu prosiect ymchwil PhD.
- Meddwl am un frawddeg gryno sy'n cyfleu eu hymchwil mewn modd dealladwy i'r cyhoedd.

**Ar ddiwedd y gweithdy hwn dylai hyfforddeion fod yn gallu:**

- Canolbwyntio ar yr agweddau o'u gwaith fydd yn mwyhau eu siawns o yrfa ymchwil lwyddiannus
- Gwella ar eu harddull ysgrifennu gwyddonol
- Gwella ar eu harddull cyflwyno

## Cynllunio a chyflwyno posteri ymchwil

**Cyflwynydd:** Dr Hywel Griffiths (hmg@aber.ac.uk)

### Bywgraffiad

Mae Hywel Griffiths yn ddarllenydd mewn daearyddiaeth ffisegol drwy gyfrwng y Gymraeg yn Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth. Geomorffoleg afonol yw ei brif faes ymchwil.

### Cynnwys

Bydd y gweithdy hwn o ddiddordeb i unrhyw un sydd yn debygol o fod yn cyflwyno poster ymchwil mewn cynhadledd yn ystod y blynyddoedd nesaf ac sydd eisiau dysgu mwy am gyflwyno ymchwil mewn dull effeithiol a deniadol. Cyn dod i'r gweithdy, gofynnir i hyfforddeion ystyried enghreifftiau o'u gwaith ymchwil y gellid ei gyflwyno ar ffurf poster.

**Amcanion y gweithdy hwn yw:**

- Cynyddu ymwybyddiaeth o botensial posteri ymchwil
- Gwerthuso enghreifftiau o bosteri ymchwil
- Trafod ffyrdd gwahanol o lunio posteri ymchwil
- Cychwyn y broses o lunio posteri ymchwil

**Cynnwys:**

1. Trafod potensial, manteision ac anfanteision posteri ymchwil
2. Trafod egwyddorion llunio poster ymchwil
3. Cyflwyno a gwerthuso enghreifftiau o bosteri ymchwil
4. Gweithdy ymarferol i hyfforddeion_gael llunio poster ymchwil

**Ar ddiwedd y gweithdy hwn dylai hyfforddeion allu:**

- Penderfynu a yw poster ymchwil yn addas ar gyfer eu hymchwil, a phryd i'w defnyddio
- Defnyddio meddalwedd cyfrifiadurol er mwyn llunio poster
- Llunio poster ymchwil effeithiol a deniadol